

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4060
(Cylchfan Leo i Gylchfan Mountain
Hare, Merthyr Tudful) (Gwahardd
Cerbydau a Chyfyngiadau
Cyflymder Dros Dro) 2022

The A4060 Trunk Road (Leo's
Roundabout to Mountain Hare
Roundabout, Merthyr Tydfil)
(Temporary Prohibition of Vehicles
and Speed Restrictions) Order 2022

Gwnaed 21 Ionawr 2022
Yn dod i rym 30 Ionawr 2022

Made 21 January 2022
Coming into force 30 January 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4060, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4060 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Leo i Gylchfan Mountain Hare, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau a Chyfyngiadau Cyflymder Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Ionawr 2022.

1. The title of this Order is the A4060 Trunk Road (Leo's Roundabout to Mountain Hare Roundabout, Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Vehicles and Speed Restrictions) Order 2022 and this Order comes into force on 30 January 2022.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

2. In this Order—
"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lloedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 30 Ionawr 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais yr A4060;

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lloedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw

Gwaharddiad a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 neu 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Atal Dros Dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act(1) or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lloedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4060 East of Abercynon to East of Dowlais trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 on 30 January 2022 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 or 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road are suspended during such times as the restrictions specified in article 4 are in operation.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Cymhwyso

6.—(1) Ni fydd y gwaharddiad a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Ionawr 2022

Nicci Hunter
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd a cherbyttfordd tua'r de cefnffordd yr A4060 sy'n ymestyn o'r gyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan Mountain Hare hyd at y gyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan Leo.

ATODLEN 2 Terfyn Cyflymder 50 mya a 40 mya Dros Dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd a cherbyttfordd tua'r de cefnffordd yr A4060 rhwng Cylchfan Mountain Hare a Chylchfan Leo, gan gynnwys cerbyttfyrdd cylchredol y ddwy gylchfan.

Application

6.—(1) The prohibition and restrictions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 21 January 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE 1 Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the northbound and southbound carriageways of the A4060 trunk road that extends from the junction with the main circulatory carriageway of Mountain Hare Roundabout to the junction with the main circulatory carriageway of Leo's Roundabout.

SCHEDULE 2 Temporary 50mph and 40 mph speed limit

The length of the northbound and southbound carriageways of the A4060 trunk road between Mountain Hare Roundabout and Leo's Roundabout including the circulatory carriageways of both roundabouts.